

Ysgol Pentrefoelas



POLISI RHIFEDD

RHESYMEG

- Credwn yn Ysgol Pentrefoelas fod rhifedd yn sgil bywyd hanfodol ac mae angen i ddysgwyr allu gymhwyso'r sgil hwn ar draws y cwricwlwm yn y gwahanol feysydd pwnc, ac mewn cyd-destunau bywyd go iawn.
- Er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng rhifedd a mathemateg, diffinir rhifedd fel hyn gan y RhG: 'Nodi a chymhwyso sgiliau rhesymu rhifiadol er mwyn datrys problem, a chynnal y gweithdrefnau rhifiadol sy'n galluogi pobl i weithio allan a dangos eu hatebion.' (*Rhaglen Rhifedd Genedlaethol, Medi 2012*)
- Mae mathemateg yn rhan o rifedd, ond mae bod yn rhifog yn golygu eich bod yn gallu cymhwyso rhai o'r sgiliau mathemategol ar draws sawl maes pwnc. Rydym yn ysgol Pentrefoelas yn deall bod angen safonau uchel o rifedd i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn a ddysgant, a thrwy hynny godi safonau ar draws y cwricwlwm.
- Cyfrifoldeb ar y cyd yw rhifedd ac annogir athrawon, cymorthyddion a holl staff dysgu yr ysgol i feithrin a datblygu sgiliau rhifedd uchel o fewn y cwricwlwm.

AMCANION

- a) Sicrhau fod athrawon a staff cymorth ysgol Pentrefoelas yn ymwybodol o'u rôl mewn hyrwyddo medrau rhifedd yn ôl y Fframwaith Cenedlaethol
- b) tîm addysgu Ysgol Pentrefoelas yn deall sut mae eu harferion dyddiol yn helpu i ddatblygu medrau rhifedd.
- c) bod strategaeth ysgol-gyfan yn bodoli i hyrwyddo rhifedd, fel ein bod yn anelu ddatblygu, cynnal a gwella safonau rhifedd ar draws yr ysgol.
- ch) Gwneud yn siwr fod safonau addysgol yn cael eu codi ar draws y cwricwlwm. drwy sicrhau fod y gweithgareddau a gynigir ar draws y cwricwlwm yn cefnogi cysondeb a dilyniant mewn sgiliau rhifedd dysgwyr.
- d) Sicrhau fod holl ddisgyblion yr ysgol yn cyrraedd eu potensial mewn a rhifedd erbyn diwedd eu blwyddyn ysgol.
- dd) Hyrwyddo dulliau ystafell ddosbarth cyson o ddatblygu sgiliau cyfrifo'n y pen gan ddysgwyr, addysgu strategaethau cyfrifo sylfaenol, a datblygu dulliau ysgrifenedig effeithlon ar gyfer cyfrifiadau arferol a'r defnydd priodol o gyfrifianellau.
- e) galluogi dysgwyr i drosglwyddo sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng pynciau.
- f) Sicrhau olrhain a monitro gofalus o gynnydd dysgwyr, gan ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu.
- ff) cefnogi asesiad, cofnodi ac adrodd ar ddysgu cyson ac effeithiol mewn sgiliau rhifedd.
- g) sicrhau fod y llywodraethwyr ysgol Pentrefoelas yn ymwybodol o'r angen i wella lefelau rhifedd dysgwyr, a'r manteision o wneud hynny.
- ng) rhoi cyfleoedd i lywodraethwyr arsylwi arer dda mewn cyflwyno rhifedd ar draws y cwricwlwm.

CANLLAWIAU

Bydd pob disgybl yn:

- a) cael arfarniad rheolaidd ar agweddau o'u medrau rhifedd
- b) cael mynediad i gefnogaeth ar gyfer datblygu rhifedd - drwy lwybrau dysgu rhifedd, matiau rhesymu, posteri / arddangosfeydd addas
- c) cael profiad o amrywiaeth o gyfleoedd o fewn pynciau sy' n helpu datblygu rhifedd yn uniongyrchol
- ch) cael arweiniad ar sut i wella medrau rhifedd ym mhob pwnc.

Bydd pob athro a chymhorthydd yn deall beth yw Rhifedd ar draws y cwricwlwm

Mae'r FfLIRhifedd yn cynnig set o amcanion sy'n berthnasol ar draws y cwricwlwm ac sydd i gael eu hymgorffori yn yr holl bynciau. Bydd cysondeb mewn addysgu rhifedd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau a gallu i'w haddasu i wahanol gyd-destunau.

Datblygu rhesymu rhifiadol

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar dair elfen:

- Nodi prosesau a chysylltiadau;
- Cynrychioli a chyfathrebu;
- Adolygu.

Defnyddio sgiliau rhif

- Defnyddio ffeithiau a pherthnasoedd rhif;
- Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb;
- Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau pen ac ysgrifenedig;
- Amcangyfrif a gwirio;
- Rheoli arian.

Defnyddio sgiliau mesur

- Hyd, pwysau/ màs, cynhwysedd;
- Amser;
- Tymheredd;
- Arwynebedd a chyfaint, ongl a lleoliad.

Defnyddio sgiliau data

- Casglu a chofnodi data;
- Cyflwyno a dadansoddi data;
- Dehongli canlyniadau

Bydd pob athro yn:

- a) derbyn arweiniad neu hvfforddiant ar sut y gall gwella medrau rhifedd o fewn pynciau cwricwlaidd i godi safonau rhifedd traws-gwricwlaidd
- b) gweithredu canllawiau y Cyfnod Sylfaen a CA2 ar ddatblygu rhifedd
- c) gweithredu polisi rhifedd yr ysgol ac yn marcio/asesu rhifedd o fewn canllawiau'r fframwaith
- ch) gweithredu mentrau ysgol-gyfan ar gyfer datblygu rhifedd.
- d) adnabod cvfleoedd yn y meysydd CS a chwricwlwm CA2 ar gyfer datblygu elfennau rhifedd o fewn y maes/pwnc/thema.
- dd) ymgorffori gweithgareddau dosbarth sv'n hyrwyddo datblygiad rhifedd drwy wahaniaethu a rhoi her i'r holl ddysgwyr
- f) darparu arweiniad i ddisgyblion ar sut i wneud cynnydd

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am:

- a) adolygu strategaethau datblygu rhifedd yr ysgol yn rheolaidd
- b) adrodd vn rheolaidd ar ddatblygiad rhifedd o fewn yr ysgol
- c) gymryd camau pellach i gynnal a chreu cynnydd mewn medrau rhifedd y disgyblion
- ch) adnabod blaenoriaethau hyfforddi a'u cyflawni ar gyfer staff
- d) fod adroddiad blynyddol ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i rieni yn dangos meincnod eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn addysgo.

Trafodwyd a chytunwyd ar y polisi hwn mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethu:

Dyddiad Tachwedd 11eg 2015

Cadeirydd: Paul Williams

Pennaeth: *Ann E Jones*

Adolygir y polisi hwn mewn blwyddyn: Tachwedd 2016